

% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector coedwigaeth:



15%
O WEITHGAREDD
COEDWIGAETH



MAE 624 O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU
GYDA CYSWLLT FFERMIO YN DOD
O'R SECTOR COEDWIGAETH

Y Rhwydwaith Arddangos

Plas yn Ial: Coedwigaeth Gorchudd Parhaus mewn Coetiroedd Fferm

Amcanion:

- Gwella'r rheolaeth coetir yn gyffredinol a fydd yn cyfrannu at gyflenwad coed cynaliadwy tuag at anghenion ynni'r fferm.
- Paratoi a gweithredu cynllun rheolaeth coetir Coedwigaeth Gorchudd Parhaus (CCF), gan gyfuno canlyniadau arolygon ar y tir a drôn.

Canlyniadau:

- Roedd y canlyniadau a gasglwyd yn ystod yr arolwg tir yn dangos bod maint y coetir yn cynyddu gymaint â chynyddran amcangyfrifedig o 7.19m³/ha/flwyddyn at ei gilydd. Mae hyn yn cyfateb ag oddeutu 90 tonnell o bren y flwyddyn, a'r ynni cyfatebol yw 178,365kWh/flwyddyn. Eu galw am danwydd pren yw tua 28,000kWh/flwyddyn, sy'n golygu y gallai cyflwyno Coedwigaeth Gorchudd Di-dor (CCF) fel techneg reoli coedwriaeth ddarparu 76 tonnell neu 150,365kWh o bren i'w werthu bob blwyddyn.
- Prif gasgliad y treial synhwyro o bell oedd y gall ddarparu cyfrifon coesynnau manwl iawn ar gyfer planhigfeydd conifer o ganlyniad i'w allu i wahaniaethu rhwng gwahanol gorunau. Ym Mhlas yn lâl, coed llydanddail yw'r math mwyaf cyffredin o goetir; felly roedd hi'n anodd cyfrifo cyfrifon coesynnau ar brydiau. Er hyn, mae canlyniadau'n darparu tystiolaeth o ddefnyddioldeb synhwyro o bell er mwyn cynorthwyo wrth asesu'r trawsnewid i CCF.

Cynhaliwyd gweminar i ledaenu canlyniadau'r arolwg ar 25 Mawrth a chynhaliwyd digwyddiad agored ar fferm ar 6 Hydref. Roedd 22 o mynychwyr yn y digwyddiad yma.

Fedw Arian Uchaf: Pori mewn Cylchdro

Mae Geraint Davies yn rhedeg fferm fynydd buchod eidion a defaid ar gyrion Y Bala. Ei brif amcan yw gwella perfformiad cyffredinol y fferm trwy gyflwyno system pori mewn cylchdro newydd ac arloesol. Er mwyn lleihau'r llwyth gwaith o symud ffensys trydan yn barhaus, mae'r prosiect yn dymuno asesu matrices presennol y gwrychoedd cyn cryfhau gwrychoedd sy'n bodoli eisoes a phlannu rhai newydd er mwyn rhannu caeau.

Er mwyn sicrhau buddion aml-swyddogaethol coed mewn system ffermio, mae'r prif amcanion fel a ganlyn:

- Cwblhau cynllun rheoli gwrychoedd er mwyn asesu'r ased a nodi meysydd i'w gwella a fydd yn cynnig budd i fusnes y fferm.
- Defnyddio seilwaith gwyrdd sy'n bodoli eisoes er mwyn creu dolydd/caeau o faint priodol ar gyfer system pori mewn cylchdro.
- Amaeth-goedwigaeth – cynnwys cysyniadau sy'n integreiddio coed yn y system ffermio a fydd yn gwella perfformiad amgylcheddol ac economaidd y fferm.

ID	L	I	Fedw Arian Uchaf				Date	23/08/19
HE (m)	Width(m)	Length (m)	Gaps (%)	gap at base (m)	gates			
2	1.5	115	0	0	2			
Hedge shrubs (%)	Trees (no)	young	mature	Invasive spp	Ditches			
Blackthorn 35	0				0			
Hawthorn 30					Links to 2			
Hazel 25					Hedge			
Wych Elm 5					Other			
Ash								
Dog rose	Herbs							
Sycamore	Nettle				Condition			
Elder					Healthy dense hedge with numerous stems, laid c. 2005			
Bramble					Minor gaps at base developing			
Raspberry					Current management.			
					Annual fall			
Management recommendations								
Allow hedge to increase in width in height								
Where next laying hedge, re-fence slightly further into field								

Ffigur 1. Ffurf cofnodi cynllun rheoli gwrychoedd.

Moelogan Fawr: Sefydlu coetir

Mae sefydlu coetiroedd newydd yn rhan anhepgor o'r tirlun fferm ac yn un a fydd yn darparu ffocws ar sylfaen ariannol cadarn a phroffidiol ar gyfer y busnes cyfan. Mae Llion a Siân Jones wedi croesawu'r cyfle trwy gyfrwng cynllun Creu Coetir Glastir i sefydlu coetir llydanddail ym Moelogan Fawr. Yr amcanion yw cynnig lloches, lleihau problemau llif trostir yn ystod tywydd eithafol, creu cydnerthedd ar gyfer newid hinsawdd a dal a storio carbon.

Bydd monitro cynnydd wrth sefydlu yn dangos cyfraddau sefydlu, bydd yn nodi methodolegau cost-efeithiol a bydd yn dangos arfer gorau ar ôl plannu, a fydd yn gwneud cyfraniad mawr i gyflawni'r amcanion er mwyn sefydlu coetir newydd ym Moelogan Fawr.

Nod y prosiect hwn fydd dangos pwysigrwydd a'r angen i greu'r amodau cywir trwy fonitro a gwerthuso tyfiant coed ar gyfer gwahanol strategaethau methodoleg gyda data cymharol ar ddiwedd prosiect 3 blynedd.



Ffigur 2. Fferm Moelogan Fawr.

Cofrestrwyd y coetir newydd gyda'r Cod Carbon Coetiroedd a chaiff cyfrifiad ei wneud o'r carbon y bydd y 10 hectar (ha) o goed yn ei ddal a'i storio dros gyfnod o 100 mlynedd.

Roedd gwybodaeth allweddol ar gyfer y gweithgarwch cyfrifo fel a ganlyn:

- Mae hwn yn goetir brodorol cymysg 10ha lle nas rhagwelir unrhyw weithgarwch rheoli ar ôl ei sefydlu.
- Nid oes unrhyw allyriadau carbon i'r pridd i'w hystyried gan bod y gwaith paratoi a wneir ar bridd mwynol yn fach iawn.
- Mae'r prosiect wedi ffensiō'r ardal prosiect gros (15ha) ond mae'n defnyddio llewys coed ar 40% o'r niferoedd. Nid oes unrhyw ffyrdd coedwig yn cael eu creu.
- Fe'i plannwyd yn ystod tymor plannu 2018 a chaiff y carbon ei hawlio am 100 mlynedd o'r dyddiad plannu olaf.
- Caiff cronni carbon pridd ei hawlio gan bod y prosiect hwn ar bridd mwynol, a ddefnyddiwyd fel tir pori yn flaenorol, ac ni chynllunir unrhyw deneuo na llwyrgwmpo. Cyfanswm yr unedau dyroddi arfaethedig ar gyfer y prosiect = 2,930tCO₂
- Mae'n bwysig nodi bod ôl troed carbon wedi cael ei gwblhau ar gyfer y fferm. Dylid ystyried unedau carbon a gyfrifwyd ac a ddilyswyd o fewn y cyfrifiadau ôl troed carbon a'r targed er mwyn cyflawni sero net. Sylwer: Ni ellir defnyddio unedau carbon wedi'u dilysu ddwywaith h.y. o fewn cyfrifiadau ôl troed carbon ar gyfer y fferm a'u masnachu yn y farchnad garbon.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol ym Moelogan yn cynnwys nodi cyfleoedd pellach ar gyfer plannu pellach a sefydlu gwrychoedd/lleiniau cysgodi a fydd yn cynnig budd i les anifeiliaid a chyfrannu ymhellach at ffoamrywiaeth, storio carbon a pherfformiad economaidd y fferm.

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth:



AMAETHYDDIAETH ADFYWIOL: BRI-AIR A MWY



DEFNYDDIO DULL CYFALAF NATURIOL I BRISIO SYSTEMAU RHEOLITIR



SUT ALL NEWID DULLIAU RHEOLITIR HELPU I GYRRAEDD SERO NET?

Grwpiau Trafod



EIP Cymru

Sefydlu coed mewn rhedyn trwchus

Mae prosiect EIP Cymru yn ymchwilio i'r dulliau gorau er mwyn sefydlu coed mewn rhedyn trwchus ac mae'r canlyniadau cynnar yn awgrymu y gallai'r dewis o goed fod yn ffactor pwysig. Mae'r prosiect yn defnyddio coed ifanc bedw, cerdin, pyrwydden Sitca a derw ac yn treialu gwahanol ddulliau mecanyddol o reoli'r rhedyn. Ni fu'r tywydd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ddelfrydol er mwyn sefydlu coed, gyda thywydd gwlyb iawn adeg y cyfnod plannu, a ddilynwyd gan wanwyn sych iawn, ond er hyn, mae'r coed bedw a'r coed cerdin wedi perfformio'n dda, gyda cholledion o 5% yn unig o'i gymharu â cholledion o 10% ar gyfer coed pyrwydden Sitca. Fodd bynnag, collwyd llawer yn fwy o goed derw ifanc, sef 25% ohonynt.

Pan ddefnyddiwyd triniaethau mecanyddol i reoli'r rhedyn, roedd y coed bedw a cherdin wedi tyfu'n dalach, ond ni welwyd hyn gyda'r coed ifanc pyrwydden Sitca a derw. Bydd y coed ifanc yn parhau i gael eu monitro a chyflawnir triniaethau ychwanegol sathru a strimio.



Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 39 Digwyddiad

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Rheoli coetiroedd ar gyfer bioamrywiaeth	Ymwybyddiaeth o iechyd coed – y plâu a'r clefydau sy'n bygwth ein coetiroedd yng Nghymru	Ffocws ar leiniau cysgodi – cynllunio, dylunio, plannu a rheolir
--	--	--

*Yn aml, mae themâu Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector.

Cymorthfeydd



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Cyfreithiol	Marchnata ac arallgyfeirio
Cynllunio	Busnes

“Roedd y gymhorthfa coetir a gawsom wedi rhoi syniad gwell i ni o'r dewisiadau rheoli sydd gennym ar gyfer ein darn o goetir ar y fferm.”
 “Yn ystod y gymhorthfa, dysgom pa ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer y coetir sydd gennym ar y fferm.”

Gweminarau



2 a'r fferm gyda 37 o ymwelwyr

Digwyddiadau ar y fferm:

Fferm Mountjoy – Cyflwyniad am arolwg bioamrywiaeth.

Moelogan Fawr – Cyflwyniad am blannu coetir ar y fferm a chynnig prif negeseuon.



Fferm Arddangos yn Fyw:

Fferm Pentre – Cyflwyniad am yr arolwg bioamrywiaeth a gynhaliwyd ar y fferm. Mae fideo ar gael ar y wefan: [Bioamrywiaeth ar Fferm Pentre](#)

Mentora

Mae 8% o'r rhai sy'n cael eu mentora yn derbyn cefnogaeth gyda materion coedwigaeth/coetir. Mae'r pynciau'n cynnwys:

Y pynciau a drafodwyd:

Plannu coed	Rheoli coetiroedd	Cynlluniau coetir posibl ar gael
-------------	-------------------	----------------------------------

Hyfforddiant

Cafwyd 5 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2020 a Medi 2021 (ac eithrio ailgeisiadau oherwydd Covid), gyda 866 achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod.

O'r nifer hwn, roedd 33 o'r achosion o'r sector coedwigaeth.

Cyriau

Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Trwslifio, Torri a Phrosesu Coed hyd at 380mm, Cwmpo a Phrosesu Coed dros 380mm, Rheoli Wiwerod Llwyd, Torri Coed sydd wedi'u codi o'r Gwreiddyn neu wedi'u Chwythu gan y Gwynt gyda Llif Gadwyn, Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng, Ymwybyddiaeth wrth Weithio'n Uchel ac Asesu'r Risg.

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector coedwigaeth:

ADNABOD COED	ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM	RHYWOGAETHAU YMLEDOL
--------------	----------------------------	----------------------

Am ragor o fanylion ynghlŷn ag e-ddysgu, ewch i'r wefan.